Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad A: Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ynghylch y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru).

Ar 15 Tachwedd 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ei adroddiad craffu Cyfnod 1 mewn perthynas â'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwnnw.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i wneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi canllawiau statudol sy'n ymwneud â'r ddyletswydd ansawdd. Dylai canllawiau o'r fath, ymhlith pethau eraill, nodi'n glir sut y bydd y ddyletswydd ansawdd wrth ddarparu gwasanaethau yn cael ei hasesu a sut y bydd sefydliad yn dangos ei fod wedi sicrhau canlyniad gwell. Dylai hefyd gynnwys manylion am sut y bydd arloesi a gwelliannau a gyflwynwyd mewn un ardal yn cael eu lledaenu a'u rhoi ar waith ledled Cymru gyfan.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn

Cafodd hyn ei godi yn y Pwyllgor, ac roedd hynny yn ddefnyddiol. Rwyf wedi pwysu a mesur yr hyn a drafodwyd ac yn diolch i'r Pwyllgor am eu cyfraniad ar y mater hwn.

Yng Nghyfnod 2, byddaf yn cyflwyno gwelliannau i Ran 2 y Bil (gwella gwasanaethau iechyd) er mwyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol mewn perthynas â'r ddyletswydd ansawdd y darperir ar ei chyfer yn y Bil. Bydd dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru i ystyried y canllawiau wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Fel y gwyddoch, rwy'n awyddus i gyhoeddi canllawiau i'r GIG er mwyn helpu i weithredu'r ddyletswydd ansawdd a rhoi arweiniad ymarferol ar sut rydym yn disgwyl i gyrff y GIG gyflawni'r ddyletswydd. Rwy'n bwriadu iddi fod yn ddogfen ymarferol, hawdd ei defnyddio gydag enghreifftiau yn dangos sut y rhagwelwn y bydd y ddyletswydd yn gweithio'n ymarferol. Fel y dywedais yn y Pwyllgor, bydd cael y canllawiau hyn i gefnogi'r ddyletswydd ar wyneb y Bil hefyd yn helpu'r broses graffu sydd gennym ar waith megis y rheoleiddwyr, Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn sicrhau bod y ddyletswydd ansawdd yn ennill ei phlwyf.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i gyfeirio'n benodol at yr angen i ganolbwyntio ar waith ataliol ac ar wella iechyd y boblogaeth fel rhan o'r ddyletswydd ansawdd

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i wneud darpariaeth benodol ynghylch cynllunio'r gweithlu/lefelau staffio priodol, a hynny fel rhan o'r ddyletswydd ansawdd.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i wneud darpariaeth benodol ynghylch dyletswydd i sicrhau gwelliannau i degwch iechyd, a hynny fel rhan o'r ddyletswydd ansawdd.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i wneud darpariaeth benodol ynghylch goblygiadau peidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod canllawiau o dan y Bil yn nodi'n glir sut y bydd y ddyletswydd ansawdd yn cyd-fynd â'r dyletswyddau gofal cymdeithasol presennol, a sut y bydd yn cefnogi'r agenda integreiddio.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod diwygiadau i'r Bil, ond ymdrin â'r materion a amlinellir yn yr argymhellion o fewn canllawiau statudol

Caiff canllawiau statudol eu llunio ar y cyd â chynrychiolwyr gweithwyr proffesiynol a chleifion er mwyn cefnogi a chynorthwyo cyrff y GIG wrth iddynt weithredu'r ddyletswydd ansawdd.

Wrth wneud hynny, bydd y canllawiau yn disgrifio ymhellach yr hyn a olygir wrth ansawdd a sut bydd yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys: sut dylai fod yn berthnasol i **holl** swyddogaethau a phrosesau cyrff y GIG; beth mae'n ei olygu ar gyfer ystyriaethau a phenderfyniadau a wneir ar bob lefel; sut dylid ystyried ansawdd gwasanaethau ar lefel y boblogaeth ehangach a sut gall cyrff y GIG ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd, trwy gyfrwng eu hadroddiadau ansawdd blynyddol, a orchynnwyd gan y Bil.

Bydd y canllawiau yn helpu i ddangos sut mae'r ddyletswydd yn berthnasol i ystyriaethau allweddol megis atal ac iechyd y boblogaeth, cynllunio'r gweithlu a threfniadau staffio a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Bydd hefyd yn amlygu'r cysylltiadau â dyletswyddau gofal cymdeithasol presennol, er mwyn ategu gwasanaethau integredig, ac yn egluro y bydd diffyg cydymffurfio â'r ddyletswydd yn codi pryderon ac yn gallu arwain at fesurau uwchgyfeirio.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i wneud darpariaeth benodol ynghylch dyletswydd darparwyr iechyd a darparwyr gofal cymdeithasol i gydweithio er mwyn sicrhau gwelliannau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhanddeiliaid yn hyn o beth ac rwy'n ffyddiog ein bod ni'n gallu gwneud hyn o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gorfodi trefniadau cydweithredu a phartneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol, gan gynnwys byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG, er mwyn

cyflawni canlyniadau gwell, hyrwyddo llesiant pobl a darparu gwasanaethau'n fwy effeithlon ac effeithiol.

Wrth wneud hynny, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar bartneriaid iechyd a llywodraeth leol i weithio gyda'i gilydd i asesu anghenion eu poblogaeth. O dan gyfarwyddyd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae'n rhaid iddynt lunio adroddiad ar y cyd ar ganlyniadau'r asesiadau hyn o'r boblogaeth a datblygu cynllun ardal ar y cyd ar gyfer diwallu anghenion gofal a chymorth dros gyfnod o dair blynedd.

Ar yr un pryd, rhaid i gyrrff y GIG ac awdurdodau lleol baratoi ac adolygu eu cynlluniau tymor canolig integredig bob 3 blynedd. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi sut byddant yn cydweithio i wella gwasanaethau iechyd yn barhaus ar gyfer y bobl maent yn eu gwasanaethu.

Mae canlyniadau'r asesiadau hyn yn fodd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynllunio gyda'i gilydd sut gallant fynd i'r afael â'r anghenion hynny, ar y cyd neu'n unigol, mewn ffordd ddi-dor ac integredig. Mae gwella canlyniadau, ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol, yn werth cyffredin ac yn sbardun allweddol i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yng nghynllun Cymru Iachach.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i wneud darpariaeth benodol ynghylch goblygiadau peidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod diwygiadau i'r Bil ond bydd hyn yn cael sylw yn y canllawiau statudol

Rwy'n falch o nodi bod y Pwyllgor yn cytuno nad yw cosbau ariannol yn addas. Fel yn achos y ddyletswydd ansawdd, bydd y canllawiau statudol ar y ddyletswydd gonestrwydd yn esbonio'n glir y berthynas rhwng y ddyletswydd a Fframwaith Perfformiad GIG Cymru, gan gynnwys y trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd. Byddwn hefyd yn sicrhau, lle bo'n briodol, ei fod yn cyd-fynd yn glir â'r trefniadau Gweithio i Wella ac yn egluro sut mae'r ddyletswydd yn cyd-fynd â Pholisi Codi Pryderon (Chwythu'r Chwiban) Cymru Gyfan.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn egluro'i fwriad o ran yr hyn a fydd yn digwydd i'r adroddiadau gonestrwydd, unwaith y byddant wedi'u creu, gan gynnwys sut y bwriedir eu monitro a chraffu arnynt.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derby

Y bwriad yw cyd-gynhyrchu'r canllawiau statudol ar onestrwydd gyda chynrychiolwyr gweithwyr proffesiynol a chleifion. Felly, bydd manylion y ffordd orau o ddefnyddio'r adroddiadau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses honno.

Ymhlith y camau rwy'n disgwyl eu gweld yw diweddariadau rheolaidd i gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, er mwyn rhoi sicrwydd i aelodau annibynnol bod y ddyletswydd yn cael ei chyflawni a bod yr hyn a ddysgir yn cael ei roi ar waith, gan uwchgyfeirio i'r Bwrdd lle bo'n briodol.

Bwriedir i Lywodraeth Cymru fonitro cynnwys yr adroddiadau gonestrwydd law yn llaw â ffynonellau gwybodaeth eraill fel adroddiadau am ddigwyddiadau difrifol a data cwynion. Bydd hyn yn llywio cyfarfodydd rheolaidd y Tîm Ansawdd a Chyflenwi a'r Tîm Gweithredol â byrddau iechyd yn ogystal â llywio trafodaethau a thystiolaeth a ystyrir drwy drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd y GIG. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystyried yr adroddiadau fel rhan o'i gwaith casglu gwybodaeth, er mwyn cefnogi ei rhaglen arolygu ac adolygu.

Mae rhagor o fanylion am y dyletswyddau i adrodd am ansawdd a gonestrwydd ar gael yn Atodiadau 2 a 3 i'm llythyr at y Pwyllgor ar 30 Awst 2019¹ sy'n darparu amlinelliaid drafft o'r canllawiau.

Bydd y canllawiau statudol ar onestrwydd yn nodi sut dylai Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG ddefnyddio'r data a gesglir, drwy adroddiadau blynyddol, er mwyn helpu i lywio eu hadroddiadau ansawdd blynyddol newydd a sut gall darparwyr gofal y GIG ddangos eu bod yn hyrwyddo diwylliant sy'n annog gonestrwydd a'r dysgu sy'n deillio ohono.

Argymhelliad 11. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i wneud darpariaeth sy'n golygu mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yn penodi aelodau Corff Llais y Dinesydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod - ond bydd yn sicrhau rhagor o gyfraniad gan randdeiliaid at y broses

Rwyf wedi gwranddo ar y dadleuon a gyflwynwyd gan aelodau'r Pwyllgor ar y pwynt hwn. Hefyd, rwyf wedi bwrw golwg arall ar y dystiolaeth a roddwyd gan randdeiliaid. Rwy'n ymwybodol bod hwn yn bwnc sydd wedi ennyn barn gref, ac roeddwn yn croesawu'r cyfle, yn y Pwyllgor, i nodi ein rhesymeg polisi dros y safbwynt a fabwysiadwyd gennym yn y Bil.

Mae gennyf hyder yn y dull a ragnodir yn y Bil – y bydd aelodau Bwrdd Corff Llais y Dinesydd yn cael eu penodi drwy'r broses penodiadau cyhoeddus, gyda chyfraniad ychwanegol gan randdeiliaid yn ystod cam y Panel Asesu Cynghorol, ac y bydd yr holl aelodau eraill (staff a gwirfoddolwyr) yn cael eu recriwtio gan y Corff ei hun.

Wrth wneud penodiadau i Fwrdd Corff Llais y Dinesydd, bydd Gweinidogion Cymru yn dilyn y Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus, sy'n nodi'r broses a'r egwyddorion i'w dilyn. Felly, bydd penodiadau'n cael eu rheoleiddio'n annibynnol gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ac, yn y pen draw, mae pob Gweinidog yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ei benderfyniadau.

Gwneir y penodiadau hyn ar sail teilyngdod yn unig; er budd y cyhoedd; heb rwymedigaeth, drwy broses sy'n agored, tryloyw, teg a diduedd.

¹<http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s93589/Llythyr%20gan%20y%20Gweinidog%20Iechyd%20a%20Gwasanaethau%20Cymdeithasol%20ar%20Fil%20Iechyd%20a%20Gofal%20Cymdeithasol%20Ansaw.pdf>

Yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor ac yn y drafodaeth Egwyddorion Cyffredinol, cadarnheais sut mae hyn yn gwella'r sefyllfa bresennol o ran penodi aelodau a chyflogi staff yn y Cynghorau Iechyd Cymuned yn sylweddol yn fy marn i.

Mae'r Bil yn sefydlu Corff Llais y Dinesydd fel endid cyfreithiol ynddo'i hun, gyda phwerau i recriwtio ei staff a'i wirfoddolwyr ei hun a'r gallu i ymrwymo i'w gongtractau ei hun, gyda'i fframwaith llywodraethu ei hun, mewn ffordd sy'n sicrhau y gall arfer ei swyddogaethau'n annibynnol ar lywodraeth.

Mae'r Bil yn nodi'n glir y bydd y Corff ei hun yn pennu ei amcanion a'i flaenoriaethau ei hun ar gyfer y flwyddyn, yn ei gynllun blynyddol cyhoeddedig, ar ôl ymgynghori â phwy bynnag yr ystyria'n briodol. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, bydd y Corff yn cyflwyno adroddiad ar sut iddo gyflawni ei swyddogaethau, gan osod copi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a bydd datganiad o'i gyfrifon yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol.

Bydd y mesurau hyn yn sicrhau lefel uchel o annibyniaeth i'r Corff newydd ac yn cynnig cyfleoedd clir i graffu ar ei waith.

Argymhelliad 12. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i wneud darpariaeth sy'n rhoi i Gorff Llais y Dinesydd hawl mynediad cymwys i leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, a hynny at ddibenion siarad â defnyddwyr gwasanaeth ac edrych mewn ffordd gymesur a rhesymol ar y gofal sy'n cael ei ddarparu. Gellid cynnwys manylion amodau neu gyfyngiadau penodol sy'n berthnasol wrth ddefnyddio'r pŵer hwn mewn rheoliadau neu ganllawiau statudol a fydd yn cyd-fynd â'r Ddeddf.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod – ond ar 2 Rhagfyr 2019, cyflwynodd y Llywodraeth welliant i'r Bil i gyflwyno Cod Ymarfer ar Fynediad.

Mae'r cwestiwn ynghylch mynediad i leoliadau lle darperir gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol wedi ysgogi cryn drafodaeth yn ystod Cyfnod 1 y broses graffu.

Mae'r Bil yn creu Corff Llais y Dinesydd newydd sydd â'r nod a'r diben cyffredinol o gynrychioli buddiannau'r cyhoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Swyddogaeth ganolog Corff Llais y Dinesydd yw cael ceisio barn y cyhoedd, ac fe bwysleisiais fod cael barn pobl yn y pwynt lle darperir gwasanaethau yn elfen allweddol. Mae sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn gallu helpu i lywio'r broses o gyflenwi gwasanaethau yn ddyhead hollbwysig y rhan hon o'r Bil. Rwyf wedi gwrandao ar dystiolaeth rhanddeiliaid ynglŷn â sut gellid cyflawni hyn.

Rwyf wedi pwysu a mesur yr holl dystiolaeth a gafwyd gan y rheini a oedd o blaid rhoi pŵer mynediad dirybudd i'r Corff a'r rhai a gododd pryderon yn erbyn hynny.

Mae gwelliant y Llywodraeth a gyflwynwyd ar 2 Rhagfyr 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Ymarfer ar fynediad i safleoedd lle darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol er mwyn gofyn am farn unigolion.

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad statudol ar y Cod cyn ei gyhoeddi er mwyn rhoi cyfle i bob rhanddeliad ymateb i'r cynnwys.

Bwriedir i'r Cod gydnabod swyddogaeth y Corff sef ceisio barn pobl yn ogystal â chydabod yr angen i ddiogelu preifatrwydd defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaethau. Gall y Cod, er enghraifft, argymhell y ffactorau sydd angen i'r Corff eu hystyried wrth wneud cais am fynediad i leoliadau, fel gwneud cais ar adegau rhesymol. Gall hefyd wneud argymhellion am yr angen i sicrhau bod rhai sy'n cynnal ymweliadau yn cael hyfforddiant a gwiriadau priodol. Fel y nodwyd uchod, bydd hyn yn destun ymgynghoriad.

Un o brif fanteision y Cod yw y bydd yn gallu adlewyrchu'r ystod o leoliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae mathau tra gwahanol o ofal, cymorth a thriniaeth yn cael eu darparu ar draws y lleoliadau hyn, sy'n ymateb i anghenion a dymuniadau cleifion. Bydd y Cod yn ddogfen fyw, sy'n gallu ymateb i'r newidiadau mewn ymarfer a phrofiadau o ddefnyddio'r Cod. Bydd yn sicrhau bod yr holl bartïon yn cyflawni eu dyletswyddau perthnasol.

Er ei bod yn bwysig, rhaid cofio mai dim ond un ffordd y gall y Corff gasglu barn yw cael mynediad i leoliadau. Mae ganddo ddyletswydd dan y Bil i nodi mewn datganiad polisi sut mae'n bwriadu casglu barn y cyhoedd (adran 14). Felly, mae'n hanfodol bod gan y Corff strategaeth i ymgysylltu cymaint â phosib ag aelodau'r cyhoedd, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo. Gobeithio y bydd hyn yn galluogi'r Corff i gyrraedd nifer sylweddol o'r cyhoedd trwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys gweithgareddau ar-lein, grwpiau trafod ac ymgynghoriadau. Efallai y bydd angen i'r Corff ymgysylltu nid yn unig â defnyddwyr gwasanaethau presennol, ond rhai blaenorol, darpar ddefnyddwyr gwasanaethau, aelodau o'u teuluoedd ac ati, er mwyn sicrhau bod y safbwyntiau a glywir mor gynrychioliadol â phosib.

Yn yr un modd, mae'n ofynnol i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol wneud trefniadau i godi ymwybyddiaeth pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a chymdeithasol o weithgareddau Corff Llais y Dinesydd (adran 17). Nod y dyletswyddau newydd hyn yw cynyddu cyfraniad, ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad pobl mewn perthynas â gwaith y Corff a llywio gwasanaethau.

Diben mynediad i safleoedd fydd casglu barn am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn i'r Corff gynrychioli buddiannau'r cyhoedd. Bydd gwiriadau o ansawdd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynnal yn erbyn safonau rheoleiddio'r arolygiaethau, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Byddai cyflwyno rôl i'r Corff newydd o ran cynnal archwiliadau o'r gofal a ddarperir yn newid ei natur ac yn dyblygu a chymylu'r llinell cyfrifoldeb rhwng y Corff a'r arolygiaethau.

Fel y dywedais, ac fel y nododd yr arolygiaethau eu hunain, rydym yn disgwyl y bydd Corff Llais y Dinesydd yn gweithio fel partner cyfartal â'r arolygiaethau gan fod eu swyddogaethau, er yn wahanol, yn ategu ei gilydd i gyflwyno'r darlun cyffredinol.

Argymhelliad 13. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i gynnwys Gweinidogion Cymru ar y rhestr o bobl y gall Corff Llais y Dinesydd gyflwyno sylwadau iddynt.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Mae'n briodol bod Corff Llais y Dinesydd yn gallu cyflwyno sylwadau i gyrrff y GIG ac i awdurdodau lleol, gan eu bod yn darparu neu'n comisiynu gofal iechyd neu ofal cymdeithasol, felly byddant mewn sefyllfa i wneud unrhyw newidiadau i wasanaethau ar lawr gwlad ar ôl ystyried y sylwadau. Gan nad yw Gweinidogion Cymru yn comisiynu nac yn darparu gwasanaethau, nid ydym yn credu ei bod hi'n briodol eu cynnwys yn y rhestr o gyrrff y gall y Corff gyflwyno sylwadau iddynt.

Fodd bynnag, bydd Gweinidogion Cymru yn derbyn cynllun blynyddol ac adroddiadau blynyddol y corff ac yn eu monitro'n ofalus, ac felly'n rhoi cyfle i'r Corff lywio polisi cenedlaethol a thynnu sylw at arferion gorau. Fel gydag unrhyw gorff arall a noddir gan Lywodraeth Cymru, bydd perthynas waith rhwng y Corff a Llywodraeth Cymru fel y noddwr yn cynnig cyfle i'r Corff godi materion gyda Gweinidogion Cymru.

At hynny, gallai'r Corff ddewis cyflwyno sylwadau i gyrrff GIG ac awdurdodau lleol ledled Cymru, er enghraifft i aelodau o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n cyflwyno cyfleoedd i ddylanwadu ar eu gwaith wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion eu poblogaethau.

Argymhelliad 14. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r sefydliad dan sylw ymateb i unrhyw sylwadau a wneir gan Gorff Llais y Dinesydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod - ond ar 2 Rhagfyr, cyflwynodd y Llywodraeth welliant sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol ar sut dylai'r ddyletswydd i ystyried sylwadau weithio yn ymarferol.

Rwyf wedi nodi sylwadau'r Pwyllgor ar natur y sylwadau y gall Corff Llais y Dinesydd eu gwneud, a'r hyn y gellir ei wneud i sicrhau eu bod nid yn unig yn cael gwrandawriad, ond bod y Corff a'r cyhoedd yn gallu gweld bod rhywun yn gwrandao arnynt. Er bod y ddyletswydd i roi sylw eisoes yn bwysig, rwyf wedi ystyried yr hyn a ddywedodd y Pwyllgor - ac ar 2 Rhagfyr 2019, cyflwynais welliant sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar sut bydd hyn yn gweithio'n ymarferol.

Mae'n amlwg y bydd angen i'r Corff gael y wybodaeth ddiweddaraf am sut mae awdurdod cyhoeddus yn ymdrin â'i sylwadau, ac, yn bwysicaf oll, beth yw canlyniad y sylwadau hynny. Bydd cyhoeddi canllawiau statudol yn ein helpu i nodi sut dylai hyn ddigwydd mewn ffordd gymesur sy'n adlewyrchu'r mathau gwahanol o sylwadau y gellir eu gwneud.

Bydd dyletswydd ar gyrrff y GIG ac awdurdodau lleol i ystyried y canllawiau hynny wrth ystyried y sylwadau, ac wrth arfer unrhyw swyddogaethau dan sylw yn y sylwadau.

Credaf fod hyn yn gryfach na dyletswydd syml i ymateb i sylwadau. Bydd y canllawiau yn pwysleisio pwysigrwydd hysbysu'r Corff am ganlyniad sylwadau. O'r dystiolaeth a glywsom yn ystod y broses graffu hyd yma, bydd gwybod pa wahaniaeth mae sylwadau wedi ei wneud yn allweddol i allu'r Corff i ddangos i'r cyhoedd bod ymwneud

â'r Corff a rhoi safbwyntiau yn rhywbeth ystyrllon, yn ychwanegu gwerth ac yn gallu gwneud gwahaniaeth.

Argymhelliad 15. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Gorff Llais y Dinesydd wneud trefniadau ar gyfer ei strwythurau mewnol lleol

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn yn rhannol

Fel y gwelir yn y memorandwm esboniadol i'r Bil, rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o sefydlu'r Corff Llais y Dinesydd er mwyn cynrychioli barn y cyhoedd ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Felly, mae angen iddo allu cyflawni ei swyddogaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn bod yn llwyddiannus. Rwyf wedi cefnogi'r farn hon yn gyson.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a gafwyd gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn pwysleisio pa mor bwysig yw ymgorffori'r egwyddor hon i randdeiliaid. Felly, ar 2 Rhagfyr 2019, cyflwynwyd gwelliant gan y Llywodraeth i'w gwneud yn ofynnol i Gorff Llais y Dinesydd, wrth baratoi ei ddatganiad polisi (dan adran 14), nodi sut mae'n bwriadu sicrhau ei fod yn cynrychioli buddiannau ac yn hygyrch i bobl o Fôn i Fynwy.

Mae hyn yn taro cydbwysedd priodol rhwng caniatáu i'r Corff benderfynu drosto'i hun, yn seiliedig ar ei asesiad ei hun o'r anghenion, materion gweithredol megis lle dylid lleoli ei swyddfeydd, a'i gwneud yn ofynnol i'r Corff sicrhau ei fod yn hygyrch ac yn cynrychioli barn pob unigolyn yng Nghymru benbaladr.

Argymhelliad 16. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i wneud darpariaeth i wirfoddolwyr gael eu recriwtio yn aelodau o Gorff Llais y Dinesydd. Dylai hyn gynnwys gofyniad i ddatblygu sylfaen o wirfoddolwyr amrywiol sy'n cynrychioli pob sector o'r gymdeithas.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Mae'r Corff Llais y Dinesydd wedi'i sefydlu fel corff corfforaethol annibynnol. O ganlyniad, mae ganddo'r pŵer i recriwtio gwirfoddolwyr heb fod angen darpariaeth benodol ar wyneb y Bil, a bydd hyn yn ei alluogi i adeiladu sylfaen amrywiol o wirfoddolwyr sy'n cynrychioli pob sector o gymdeithas. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi amcan o gost hyfforddi gwirfoddolwyr a thalu treuliau ac ati. Felly mae recriwtio gwirfoddolwyr wedi'i ystyried yn y costau.

Mae tystiolaeth anecdotaidd gan y Cynghorau Iechyd Cymuned yn awgrymu bod llawer o ymgeiswyr priodol yn gyndyn o wneud cais am aelodaeth o Gyngor Iechyd Cymuned ar hyn o bryd oherwydd y broses ymgeisio a chyfweld hynod ffurfiol. Felly, mae gan y ffaith y bydd gan Gorff Llais y Dinesydd yr hyblygrwydd i benderfynu ar ei fodel gwirfoddolwyr ei hun botensial gwirioneddol i gynyddu nifer ac amrywiaeth y gwirfoddolwyr.

Mae swyddogion wedi cael sgwrs gychwynnol gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a ddywedodd y byddent yn hapus i rannu eu profiadau recriwtio a chadw

gwirfoddolwyr gyda'r Bwrdd Gweithredu a gaiff ei sefydlu i hwyluso'r gwaith o sefydlu'r Corff newydd.

Argymhelliad 17. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd ar gyrrff iechyd ac awdurdodau lleol i gydweithio â Chorff Llais y Dinesydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Mae'r Bil eisoes yn dweud bod rhaid i gyrrff y GIG ac awdurdodau lleol hyrwyddo ymwybyddiaeth o weithgareddau Corff Llais y Dinesydd (adran 17) a darparu gwybodaeth y mae'n gwneud cais rhesymol amdani (adran 18). Mae gwelliannau Cyfnod 2 y Llywodraeth wedi'u cyflwyno hefyd a fydd, o'u pasio, yn cryfhau ymhellach y berthynas rhwng Corff Llais y Dinesydd a chyrrff y GIG ac awdurdodau lleol:

- (i) y cod ymarfer sy'n ymwneud â mynediad i safleoedd i geisio canfod barn pobl; a
- (ii) bydd canllawiau statudol yn pennu sut i ymdrin â sylwadau a wnaed gan Gorff Llais y Dinesydd mewn perthynas ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan sicrhau bod y Corff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn gwybod am ganlyniad ei sylwadau.

Gyda'i gilydd, mae'r darpariaethau hyn yn gosod fframwaith cryf ar gyfer cydweithredu rhwng Corff Llais y Dinesydd a chyrrff y GIG ac awdurdodau lleol. Rwy'n disgwyl i'r Corff newydd a'i bartneriaid yn y GIG a llywodraeth leol adeiladu ar y trefniadau statudol hyn wrth i'r berthynas rhyngddynt ddatblygu.

Argymhelliad 18. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn ailystyried yr adnoddau a neilltuwyd ar gyfer sefydlu a gweithredu Corff Llais y Dinesydd, gyda golwg ar eu cynyddu. Bydd angen adlewyrchu unrhyw newidiadau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyflwyno'r amcangyfrif gorau o gostau'r Bil, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'n bwysig cydnabod y bydd Corff Llais y Dinesydd yn gorff annibynnol a noddir gan Lywodraeth Cymru, gyda'r disgresiwn i ddefnyddio ei gyllid mewn ffyrdd gwahanol i'r hyn a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddo weithredu o fewn ei amlen ariannol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau.

Mae'r cyllid a gaiff ei ddarparu i'r Corff newydd yn cymharu'n ffafriol iawn â'r hyn sydd ar gael i gyrrff tebyg mewn rhannau eraill o'r DU sy'n cyflawni swyddogaethau lled debyg. Ar sail cyllideb flynyddol o £4.7 miliwn ar gyfer y Corff newydd, bydd hyn yn golygu cyllid o £1.52 y pen o'r boblogaeth. Y symiau cyfatebol yn 2017/18 oedd £0.54 ar gyfer Health Watch yn Lloegr a £0.84 ar gyfer y Patient and Client Council yng Ngogledd Iwerddon.

Rwy'n fodlon bod hon yn lefel ddigonol o gyllid sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng pwysau cystadleuol ar bwrs y wlad wrth sicrhau buddsoddiad i gryfhau llais y dinesydd a sicrhau gwerth am arian. Fel y nodwyd mewn ymateb i rai o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid, bydd unrhyw oblygiadau ariannol nas rhagwelwyd yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol a ddyrennir ar gyfer y ddeddfwriaeth hon, dros gyfnod cynllunio'r gyllideb fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol y tu hwnt i hynny'n cael eu hymgorffori yng nghynlluniau cyllidebol y dyfodol.

Argymhelliad 19. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn adrodd yn ôl inni ar y cynnydd gyda'r gwaith ar ddiwygio'r system reoleiddio ac arolygu yn y meysydd ieched a gofal cymdeithasol. Dylai wneud hyn o fewn 12 mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derby

Byddaf yn fodlon rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y mater hwn yn y flwyddyn i ddod

Argymhelliad 20. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynigion yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r diffyg cysondeb yn y systemau sy'n rheoleiddio staff clinigol a rheolwyr anghlinigol yn y GIG. Nid mater i'r Bil hwn yw hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Cytunaf â barn y Pwyllgor nad yw hwn yn fater i'r Bil hwn.

Nid wyf yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater mewn rheoliadau. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu cynnal adolygiad yn ystod 2020 o'r broses benodi, y contractau a'r systemau perfformiad sydd ar waith ar gyfer swyddogion gweithredol ac uwch arweinwyr y GIG. Bydd hyn yn ystyried pa welliannau pellach sydd eu hangen. At hynny, byddwn yn adolygu'r 'Codau Ymddygiad ac Atebolrwydd ar gyfer Byrddau'r GIG' a 'Chyfarwyddiadau'r Cod Ymddygiad ar gyfer Rheolwyr y GIG' a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2007, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r dirwedd reoleiddiol a llywodraethu bresennol. Rydym hefyd yn ymgysylltu â GIG Lloegr ar sut bydd y gronfa ddata ganolog o gyfarwyddwyr sy'n cael ei chreu ganddynt yn sicrhau y gellir monitro a lliniaru symudiadau unigolion rhwng pedair gwlad y DU, ac o dramor.

Rwy'n fodlon adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar hyn y materion hyn yn y flwyddyn i ddod.

Argymhelliad 21. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn adrodd yn ôl inni ar y gwaith sy'n cael ei wneud i wella ansawdd arwain a rheoli yn y gwasanaeth ieched. Dylai wneud hyn o fewn 6 mis.

Rwy'n fodlon rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud i wella ansawdd arwain a rheoli yn y gwasanaeth ieched yn y flwyddyn i ddod.

Eitem 6.4

Vaughan Gething AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Ein cyf/Our ref: MA/VG/5824/19

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Ionawr 2020

Annwyl Llyr,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am ei waith diwyd a manwl wrth ystyried goblygiadau ariannol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). Rwy'n cydnabod y 9 o argymhellion a wneir gan y Pwyllgor yn ei adroddiad craffu, a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2019, ac amgaeaf f'ymateb i bob un ohonynt yn Atodiad A.

Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn gefnogol i'n dull o ddatblygu amcangyfrifon o gost a manteision y Bil drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys cyrff y GIG ac awdurdodau lleol, a bod y Pwyllgor o'r farn y bydd hyn yn ein helpu i weithredu'r newidiadau diwylliannol y mae'r Bil am eu cyflawni.

Mae nifer o argymhellion y Pwyllgor yn ymwneud â meysydd lle na fu'n bosibl meintioli costau a manteision newidiadau diwylliannol mewn modd ystyrlon. Rwy'n parhau'n gwbl argyhoeddedig na ddylid ceisio cynnal y drafodaeth am ansawdd a gonestrwydd o fewn fframwaith sy'n seiliedig ar werth ariannol, gan na fyddai hynny'n cymryd i ystyriaeth y ffaith na ellir dadansoddi'r manteision, a fydd yn deillio o gyflwyno'r ddwy ddyletswydd hyn, mewn modd ariannol heb iddynt golli eu hystyr, er fy mod yn cydnabod rôl graffu a diddordeb y Pwyllgor. Mae'r rhan fwyaf o'r manteision y disgwylir iddynt ddeillio o ddarpariaethau'r Bil yn rhai nad ydynt yn ariannol – manteision ydynt sy'n ymwneud â sicrhau gwell gwasanaethau, profiadau, a chanlyniadau. Er y bydd y pethau hyn o fantais wirioneddol a sylweddol i'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd, ac i'r rheini sy'n eu darparu, ond nid oes modd eu hystyried fel manteision ariannol.

O ganlyniad, ni fu'n bosibl imi dderbyn yn llawn bob un o argymhellion y Pwyllgor yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl iddynt, ac ym mhob achos rydym wedi cadw cyn belled â phosibl at yr egwyddorion a'r rhesymeg sy'n sail i'n broses benderfynu wrth inni wrth fynd drwyddi.

Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr eiriau o rybudd y Pwyllgor ynghylch cywirdeb yr amcangyfrifon o gostau. Rwy'n awyddus i bwysleisio f'ymrwymiad parhaus i'w monitro'n ofalus iawn, a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid allweddol i'w hadolygu'n rheolaidd yn ystod y cyfnod gweithredu.

Yn olaf, hoffwn roi gwybod fy mod wedi cyflwyno tri gwelliant gan y Llywodraeth i'r Bil ar 2 Rhagfyr 2019, ac y byddaf hefyd yn cyflwyno cyfres arall o welliannau yn ystod Cyfnod 2. Bydd unrhyw effeithiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn yn cael eu nodi yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol y byddwn yn ei gyflwyno ar ôl trafodion Cyfnod 2.

Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, mewn perthynas â'u hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn copïo pob llythyr at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Atodiad A: Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru).

Ar 3 Gorffennaf 2019, ystyriodd y Pwyllgor Cyllid oblygiadau ariannol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru), ac ar 15 Tachwedd fe gyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad craffu. Mae'r ddogfen hon yn rhoi ymateb Llywodraeth Cymru i bob un o'r 9 o argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwnnw.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith pellach yn dadansoddi ac yn amcangyfrif buddion y Bil, a nodir fel ysgogwyr allweddol ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth. Dylid cynnwys y wybodaeth hon, a ddylai gynnwys dadansoddiad o sensitifrwydd i ddangos yr ystod bosibl o werthoedd, mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddir ar ôl trafodion Cyfnod 2.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Cyn cyflwyno'r Bil, cyflawnwyd gwaith sylweddol o ran ymchwilio i'r dystiolaeth a oedd ar gael, gan ddod i'r casgliad o ran y pwynt hwn y byddai unrhyw ddadansoddiad o sensitifrwydd mewn perthynas â hyn yn rhy gyffredinol i fod yn ystyrllon yn ymarferol oherwydd y diffyg data am y manteision sy'n ymwneud â'r gost o osgoi darparu gofal iechyd o ansawdd gwael.

Manteision anariannol yw'r rhan fwyaf o'r manteision y disgwylir iddynt deillio o ddarpariaethau'r Bil; manteision ydynt sy'n ymwneud â gwell gwasanaethau, profiadau, a chanlyniadau. Mae'r pethau hyn o fudd gwirioneddol i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, yn ogystal â'r rheini sy'n eu darparu, ond nid yw'n hawdd eu mesur mewn modd ariannol, ac ni fyddai gwneud hynny'n rhoi darlun cywir o'r manteision. Wrth gynhyrchu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel y'i cyhoeddwyd, rydym wedi ceisio sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng asesiad o'r costau, wedi eu meintoli, yr ydym yn rhagweld y byddant yn deillio o'r ddeddfwriaeth, a'r risg o gyflwyno amcangyfrif diystyr.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried cwmpas y rhaglen monitro a'r gweithgarwch gwerthuso a fydd yn gallu mesur manteision anariannol y Bil. Bydd hyn yn cynnwys y dangosyddion penodol sydd wedi eu meincnodi y disgwylir iddynt allu dangos gwelliannau mesuradwy yn ystod y cyfnod ôl-weithredu.

Goblygiadau ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i'n hymateb i'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 2. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tybio y bydd cyfran sylweddol o'r costau sy'n deillio o ofynion y Bil yn cael eu hamsugno gan randdeiliaid, fel cyrff y GIG heb nodi'r goblygiadau tebygol. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu asesiad priodol o'r costau a'r manteision tebygol a fydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth, ac fe'i datblygwyd drwy

ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae'r asesiad hwn yn dod i'r casgliad bod y dyletswyddau a roddir ar gyrff y GIG drwy'r Bil yn rhai priodol a chymesur. Mae'r asesiad hefyd yn cynnwys, lle y bo'n bosibl, gostau cyfleoedd o ganlyniad i'r ffaith bod darpariaethau yn y Bil yn cynnwys rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant, er mwyn iddynt allu ymgorffori'r ffyrdd newydd o weithio yn eu gwaith.

Mae Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol yn ddadansoddiad sy'n ymwneud â gwerth am arian - byddai ymestyn y dadansoddiad i gynnwys ystyried sut y bydd y costau hyn yn cael eu hariannu yn symud y tu hwnt i'r hyn y mae'r aseidiadau wedi cael eu dylunio i'w wneud a'u pwrpas. Wrth gwrs, mae materion sy'n ymwneud â bod yn fforddiadwy, a chyllid, yn ystyriaethau pwysig i Lywodraeth Cymru, ond byddant o ddiddordeb i'r Cynulliad, ac felly byddant yn cael eu monitro'n agos yn ystod y cyfnod gweithredu.

Goblygiadau ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i'n hymateb i'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid gwneud gwaith pellach mewn perthynas â'r costau parhaus sy'n debygol o godi o'r ddyletswydd ansawdd, nad ydynt yn cael eu meintioli yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol. Dylai gynnwys dadansoddiadau o sensitifrwydd i ddangos yr ystod bosibl o werthoedd, a chynnwys hyn yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddir yng Nghyfnod 2.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Rydym yn parhau o'r farn y bydd y costau parhaus sy'n codi o'r ddyletswydd ansawdd yn cael eu pennu gan mwyaf gan benderfyniadau a gymerir gan gyrff unigol y GIG, ac nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ddweud ymlaen llaw beth fydd y penderfyniadau hynny. Byddwn yn gwneud mwy o waith yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig o ran darparu enghreifftiau o'r arferion gorau sydd ar waith ar hyn o bryd, lle mae rhai unigolion eisoes yn gweithio mewn ffyrdd a fydd yn ofynnol o dan y ddyletswydd. Bydd hyn yn dangos gwerthoedd mewn achosion unigol o'r arferion gorau sydd ar waith ar hyn o bryd, ond nid yw'n darparu'r dystiolaeth mewn perthynas â phenderfyniadau a chanlyniadau yn y dyfodol a fyddai'n ein galluogi i gyflwyno amcangyfrif pendant o gyfanswm y gost (na hyd yn oed yr ystod o gostau) ledled Cymru.

Goblygiadau ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i'n hymateb i'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried lefelau'r costau ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd a bod y rhain yn cael eu cynnwys mewn Aseiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yng Nghyfnod 2.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn mewn egwyddor

Mae'r amcangyfrifon o'r gost o ddatblygu deunyddiau'r hyfforddiant, a'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, mewn perthynas â'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd, a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd. Cafodd eu paratoi ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol, ac yn seiliedig ar ein profiad blaenorol o weithredu deddfwriaeth gymharol, gan gynnwys yr ymgyrch 'Gweithio i Wella' a ddefnyddiwyd i lansio proses gwyno newydd y GIG yn ôl yn 2011.

Wrth ystyried yr argymhelliad hwn, mae'r amcangyfrifon a oedd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael eu hadolygu. Ni chafodd unrhyw dystiolaeth newydd ei chyflwyno yn ystod y broses graffu yng Nghyfnod 1 o ran lefelau'r costau yn y meysydd hyn, ac felly dim ond diwygiadau mân sydd wedi cael eu gwneud i adlewyrchu'n well bwysau chwyddiant wrth gyfeirio at ffigurau o'r gorffennol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r rhanddeiliaid perthnasol, wrth i'r Bil deithio drwy'r broses graffu ac yn ystod y cyfnod gweithredu, er mwyn monitro cost ac ymarferoldeb y cynigion.

Goblygiadau ariannol

Bydd unrhyw oblygiadau ariannol, nad ydynt wedi eu rhagweld, yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y ddeddfwriaeth hon, yn ystod cyfnod cynllunio'r gyllideb fel y'i nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol y mae eu hangen yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau cyllidebau yn y dyfodol.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn paratoi dadansoddiad o sensitifrwydd i ddangos effaith newidiadau yn nifer y digwyddiadau ar y gost barhaus sy'n codi o gyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yng Nghyfnod 2.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith ar y costau cyfreithiol sy'n codi o'r Bil ac yn diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yng Nghyfnod 2. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o sensitifrwydd i ddangos ystod o gostau, lle bo hynny'n briodol.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid cynnal dadansoddiad o sensitifrwydd i ddangos sut y mae amrywiadau yn y rhagdybiaethau ynghylch nifer y cwynion ychwanegol yn effeithio ar nifer y staff sy'n ofynnol ar gyfer y Corff Llais Dinasyddion newydd a'i gostau rhedeg disgwylidig. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yng Nghyfnod 2.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol adlewyrchu'r ystod bosibl o gostau TGCh yn hytrach na'r amcangyfrif cost isel.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn cael ei osod ar ddiwedd Cyfnod 2, a bydd hwnnw'n cynnwys yr wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani.

Goblygiadau ariannol

Bydd unrhyw oblygiadau ariannol, nad ydynt wedi eu rhagweld, yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y ddeddfwriaeth hon, yn ystod cyfnod cynllunio'r gyllideb fel y'i nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol y mae eu hangen yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau cyllidebau yn y dyfodol.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, wrth adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, y dylid cynnwys gwybodaeth am fethodolegau a chynnwys penodol yr adolygiad ôl-weithredu. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sefyllfa'r llinell sylfaen y gellir mesur ac asesu effaith y Bil yn ei herbyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried cwmpas y rhaglen fonitro a gweithgarwch adolygu a fydd ar waith ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei gweithredu. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei osod ar ddiwedd Cyfnod 2, a fydd yn cynnwys rhywfaint o fanylion am y fethodoleg a'r dull gweithredu y bwriedir eu defnyddio i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer gwerthuso llwyddiant ac effeithiau darpariaethau'r Bil.

Goblygiadau ariannol

Bydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y ddeddfwriaeth hon, yn ystod cyfnod cynllunio'r gyllideb fel y'i nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol y mae eu hangen yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau cyllidebau yn y dyfodol.

Eitem 6.5

Lesley Griffiths AC/AM

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16

Ionawr 2020

Annwyl Mick

Hoffwn roi gwybod ichi am ddyddiadau cyfarfodydd y Grŵp Rhyng-weinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig eleni. Bydd y dyddiadau hyn yn ddarostyngedig i newid ond bwriedir cynnal y cyfarfodydd ar y dyddiadau a ganlyn:

- 13 Ionawr
- 17 Chwefror
- 23 Mawrth
- 27 Ebrill
- 15 Mehefin
- 14 Medi
- 26 Hydref
- 16 Tachwedd
- 7 Rhagfyr.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn hoelio sylw ar faterion allweddol sy'n ymwneud yn bennaf â pharatoadau'r DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Caiff pedair Gweinyddiaeth y DU eu cynrychioli.

Hoffwn hefyd roi gwybod ichi y canslwyd y cyfarfod ar 25 Tachwedd 2019 oherwydd yr etholiad cyffredinol.

Xn gywir
Lesley

Lesley Griffiths AC/AM

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs